

TAFOD Y TAB

YN ÔL I BABELLY CYFARFOD

O'r diwedd, ar ôl cyfnod o ddeunaw wythnos yn addoli yn Neuadd y Pentref, daeth y newydd ein bod i gael dychwelyd i'r capel ar Ionawr 24ain. Mawr oedd y cyffro a'r disgwyl i weld yr adeilad ar ei newydd wedd, a chafodd neb eu siomi: roedd pawb wedi gwirioni ar y lliwiau glanwaith, cynnes, ac roedd croeso arbennig i'r cadeiriau newydd, cyfforddus.

Croesawyd pawb yn ôl gan Wendy Reynolds, Cadeirydd y Bwrdd, a diolchodd hithau ar ein rhan ni i gyd i bawb a fu ynghlwm â'r gwaith adnewyddu, ond yn arbennig i Helen Middleton a Pens (Emlyn Penny Jones) sydd wedi ysgwyddo'r baich mwyaf o ddigon. Fel y dywedodd Wendy, buom yn hynod ffodus yn eu hymroddiad diflino dros gyfnod maith, ond roedd yn gaffaeliad mawr eu bod ill dau yn ymddiddori mewn gwaith adeiladu, ac yn medru dal eu tir i drafod yn synhwyrol a gwneud penderfyniadau anodd ar ein rhan.

Roedd y Myfyrdod yng ngofal Emlyn Davies, a dewisodd ei thema o Lyfr Exodus lle mae Moses yn sgwrsio â Duw ym Mhabell y Cyfarfod. Datblygodd hynny i sôn am yr Iesu'n annerch yn y synagog yn Nasareth, ac yn cyhoeddi ei fanifesto i ofalu am y tlodion a rhyddhau'r caethion. Wrth i ni dychwelyd i Babelly y Cyfarfod, roedd Emlyn yn gofyn a ydym yn hyderus fod Duw yn dod ar y daith gyda ni.

Byddwn yn cynnal agoriad swyddogol adeilad y capel yn y gwanwyn. Cewch hanes y gwaith adeiladu ar dudalen 7 ac mae casgliad diddorol o luniau ar dudalen 10



Ydych chi'n adnabod y person yn y llun hwn tybed? Mae hi ar fin gadael diogelwch y ddaear hon i baragledio uwchben rhai o olygfeydd godidocaf yr Alpau yn Ffrainc. Ond pwy yw hi? Trochwch i dudalen 8

DIWEDD CYFNOD NODEDIG CAREYNYMDDEOL

Ychydig fisoedd yn ôl, roedd pregethwr gwadd yn dweud gair wrth y plant, pan ofynnodd iddyn nhw: "Pwy, yn eich barn chi, yw'r person pwysicaf yn y capel hwn?" Daeth yr ateb fel ergyd o wn: "Mr Carey Williams!" A doedd neb a fedrai ddadlau â hynny.

Ddiwedd y flwyddyn, daeth cyfnod nodedig iawn i ben yn ein hanes wrth i Carey ymddeol o'i ddyletsyddau fel organydd ar ôl cwblhau deugain mlynedd o wasanaeth displair, a'i gyfraniad wedi cyfoethogi pob oedfa dros y degawdau. Byddai'n ofalus iawn yn dewis y dôn fwyaf addas ar gyfer geiriau pob emyn, a chawsom ein cyflwyno i weithiau rhai o gyfansoddwyr mawr y byd yn y rhannau hynny lle y byddai cyfle i wrando ar ei ddatganiadau caboledig.

Yn frodor o Aberdâr, magwyd Carey yng Nghastellnewydd Emlyn, ac yng Nghapel y Graig. Yn y fan honno y bwriodd ei

brentisiaeth fel cyfeilydd. Bu'n chwarae'r organ mewn sawl capel ar ôl hynny, ond erbyn iddo ddod yn athro yn Ysgol Bryntaf, Caerdydd, cafodd ei benodi'n organydd cyflogedig yng nghapel Pembroke Terrace, a hynny mewn olyniaeth arbennig. Yn fuan wedyn, fe'i penodwyd i swydd gyda'r BBC, yn gynhyrchydd rhaglenni radio i ysgolion mewn cyfnod pan oedd bri mawr ar y ddarpariaeth honno, a dilyniant helaeth ledled Cymru.

Roedd Loreen eisoes yn aelod yn y Tabernacl, a maes o law dechreuodd Carey yntau fynychu'r gwasanaethau, er mai Anti Vi oedd yr organydd bryd hynny. Roedd yn anochel mai ef fyddai'n ei dilyn yn y man, a buom yn anhygoel o ffodus yn medru manteisio ar ei ddoniau – mewn oedfaon, gwasanaethau plant, priodasau ac angladdau.

Rhoddodd hefyd flynyddoedd ffyddlon i'r gwaith o fod yn ysgrifennydd yr eglwys yn ei dro, a bu cyfraniad Loreen hithau yr un mor loyw mewn ffordd wahanol, yn yr Ysgol Sul am flynyddoedd, ac yna'n gyfrifol am baratoi cardiau pen-blwydd i'r plant bach bob Sul.

Eu dymuniad oedd peidio cael eu hanrhegu wrth iddyn nhw ymddeol, a pheidio cael ffys, a bu'n rhaid i'w cyd-aelodau barchu hynny, er yn gyndyn iawn. Mae ein dyled fel eglwys yn enfawr iddyn nhw'u dau am bopeth.



MERCHED Y TABERNACL

Cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd i Ferched y Tabernacl oedd ymweliad â Neuadd Dewi Sant i wrando ar gyngerdd awr ginio gan Driawd y Pomgranadau, sef triawd ifanc a oedd yn cynnwys ffidil, soddgrwth a phiano yn perfformio gweithiau gan Rachmaninov a Beethoven.

Yna, daeth nifer dda o aelodau ynghyd ar ddechrau mis Mawrth i ddathlu Gŵyl Ddewi ym Mwyty'r Caesar's. Cawsom ginio hyfryd a phrynhawn pleserus yng nghwmni'n gilydd. Yna, tua diwedd y mis cawsom 'wledd' o fath arall - gwrando ar Huw Tregelles Williams yn rhoi datganiad anhygoel ar yr organ yn Neuadd Dewi Sant.

Trip mewn bws mini i'r Amgueddfa Wlân, Drefach Felindre oedd y peth nesa ar ein rhaglen a buom yn lwcus i gael tywysydd lleol, galluog a oedd yn gymster ar egluro'r holl broses o sut oedd y gwlan o gefn y ddafad yn cael ei drawsnewid i garthen liwgar. Yna ymlaen i Gastell Newydd Emllyn i gael cinio a gwneud ychydig o siopa. Roedd ein cyfarfod nesa yn agosach at adre, a cawsom fore diddorol iawn yn ymweld â Ffynnon Daf a gwyllo ffilm yn olrhain hanes y ffynnon ar hyd y canrifoedd. Pythefnos wedyn, ar fore hyfryd o Fehefin, aethom i ymweld â Thŷ Dyffryn a'r gerddi.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd ymweliad ag eglwys hynafol Llanilltud Fawr. Croesawyd y Doctor Elin Jones i'n plith i'n tywys o amgylch yr eglwys hynod ddiddorol hon. Adeilad o bren, plethwaith a chlai oedd yr adeilad gwreiddiol ond tua diwedd yr 11eg ganrif codwyd eglwys o garreg gan y Normaniaid. Tynnwyd ein sylw at furluniau hynod a hefyd tri ffigwr cerfiedig o Grist ar y Groes gyda Mair ac Ioan a hefyd y meini nadd Celtaidd sydd nawr mewn cartref newydd chwaethus - sef Capel Galilea a

ail-adeiladwyd yn ddiweddar iawn.

Cawsom fore hyfryd arall yng nghastell mwyaf Cymru sef Caerffili gyda thywysydd i roi hanes y castell i ni a chyfle wedyn i grwydro a rhyfeddu at ei faint a champ yr adeiladwyr.

Erbyn mis Hydref roedd yn amser i ddechrau meddwl am fywd ac anrhegion ar gyfer y Nadolig a daeth Eluned Davies-Scott â llu o syniadau amrywiol a diddorol i ni a cawsom gyfle i flasw'r holl ddanteithion i orffen y cyfarfod.

Rydym bob amser yn edrych ymlaen at ein hymweliad blynyddol â'r Amgueddfa Genedlaethol gydag Ann Saer i'n tywys o gwmpas. Y tro yma, merched oedd yn cael blaenoriaeth - lluniau o ferched a hefyd lluniau gan ferched. Bore pleserus iawn arall gydag Ann sy'n gallu trosglwyddo cymaint o wybodaeth mewn ffordd mor dawl a diymhongar.

Cyfarfod ola'r flwyddyn oedd bore coffi i drefnu rhaglen y flwyddyn nesa a cawsom nifer o syniadau newydd a chyffrous - edrych ymlaen at flwyddyn amrywiol arall a bydd croeso arbennig i aelodau newydd fel arfer.

Byddwn hefyd yn cynnal raffl bob mis ac rydym yn ddiolchgar iawn i Loreen am drefnu hwn. Hyd yn hyn rydym wedi rhoi dros £600 at elusennau lleol gan gynnwys y 'Stafell Fyw, Banc Bwyd Pontyclun, Valley Kids a Chronfa Aaron.



Rhai o wirfoddolwyr y Tabernacl yn casglu nwyddau i'r Banc Bwyd yn Tesco, Tonysguboriau

CYLCH CADWGAN

Y siaradwr yng nghyfarfod Cylch Cadwgan y capel a gynhaliwyd ar nos Wener yr ail o Hydref 2015 oedd Gareth F. Williams. Yn awdur toreithiog mae wedi cyhoeddi nifer o nofelau a llyfrau i blant ac fe gafodd goeso brwd gan y gynulleidfa yn y Ganolfan. Byrdwn ei sgwrs oedd y modd y datblygodd ei yrfa fel nofelydd a sgriptiwr. Eglurodd ei fod, ers dyddiau ysgol, wedi bod â'i fryd ar ysgrifennu. Mentrodd fel ysgrifennwr profesiynol wedi llwyddiant yn paratoi sgriptiau ac yn sgîl hynny trodd at gynhyrchu nofelau. Rhoddodd fraslun o'i ddull o weithio gan ddangos sut yr oedd yn datblygu testun o ddrafft i ddrafft. Er yn swnio'n heriol, dywedodd bod ei arfer o baratoi sawl nofel ar yr un pryd yn gymorth gan ei fod, pan yn cael trafferth symud gydag un, yn llwyddo i symud ymlaen gydag un arall. Drwy gydol y cyflwyniad hoeliodd sylw'r gynulleidfa â'i sylwadau bachog, ei ddiffuantrwydd a'i barodrwydd i ymateb i gwestiynau. Yn ddiôs cafwyd cyfarfod tra llwyddiannus a mawr oedd y gymeradwyaeth ar y diwedd.

Y Pwyllgor Cerdd

Rydym ni'n dal i chwilio am bobl i ymuno gyda'r grwpiau cyfeilio ar gyfer oedfaon. Cysylltwch a Sian Elin ar sejbh@aol.com

Y Gofalwyr Ardal

Gweithio'n dawl bach wna aelodau'r pwyllgor yma – gan gynnig cysur, cwmniaeth, cynhalieth neu gwmpeni i rannu adegau llai hapus bywyd. Mae gan y Tabernacl dîm o bobol sy'n barodi wrando ac estyn llaw. Mae croeso i chi gysylltu â'ch cynrychiolydd lleol.

Os gwyddoch am rywun mewn profedigaeth neu sy'n anhwylyd yn eich ardal chi, cofiwch roi gwybod i un o'r gofalwyr perthnasol, fel ein bod yn medru rhannu'r consyrn gyda'n gilydd.

Gallwch hefyd drefnu bod gwybodaeth am unrhyw newyddion da yn cyrhaedd y daflen wythnosol drwy e-bostio geraintrees@hotmail.com neu ffonio Geraint Rees.

Bydd rhestr ddiwygiedig yn cael ei gosod yng nghefn y capel gyda hyn.

Dyma enwau'r gofalwyr ardal cyfredol:

Creigiau/Groesfaen

Geraint Davies, Jen MacDonald, Lowri Roberts, Nia Williams

Efail Isaf

Shelagh Griffiths, Loreen Williams

Crown Hill, Gwaun Meisgyn, Beddau

Ann Rees

Llantrisant

Rhiannon Price, Glenys Roberts

Pentre'r Eglwys

Rhiannon Humphreys, Eirian Rowlands, Carys Davies

Meisgyn

Jane Eryl Jones

Ton-teg

Elaine James, Audrey Lewis, Gwen Aubrey

Pentyrch

Marian Wynne

Radur, Gwaelod-y-Garth

Ros Evans

Y 'TWMIAID'

Bu'r tymor diwethaf yn gyfnod prysur iawn i'r Twmiaid.

Ers mis Medi penderfynwyd ail sefydlu grwp ar gyfer disgyblion 9 oed + ar nos Sul. Bellach rydym yn cyfarfod bob pythefnos am 5pm. Cafwyd cyfle i wneud nifer o bethau gwahanol yn ystod y tymor gan gynnwys trip i Ganolfan Trampolin 'Infinity' yng Nghaerdydd.

Yn dilyn rhoi llawer y sylw yn ein sesiynau i faterion rhyngwladol amrywiol, gan gynnwys argyfwng ffoaduriaid, cafwyd cyfle i wneud ffilm oedd yn cymharu teimladau'r Cymry a ymfudodd i Batagonia dros 150 o flynyddoedd yn ol gyda theimladau ffoaduriaid heddiw.

Cafwyd 'Premier' i'r ffilm yn theatr Garthwlwg, a bydd y ffilm i'w gweld ar wefan y Capel yn fuan.

Cafwyd gwasanaeth Nadolig ar y thema 'Ffoi o'r Fforest' hefyd yn theatr Garthwlwg i ddod a gweithgareddau'r tymor i ben. Diolch i'r criw am weithio mor galed gyda'i gwasanaeth.

Mae tymor nesaf yn argoeli i fod yr un mor brysur gyda thrip, a gwyliau ar y gweill yn ogystal a'r sesiynau pythefnosol.



CWIS: Pwy sy'n Perthyn

Mae sawl cenhedlaeth o sawl teulu yn dod i'r Tabernacl. Allwch chi adnabod pa Famgu sy'n perthyn i pa blentyn? Mae'r atebion ar dudalen 7 ond her ychwanegol i chi yw enwi pob un, ac os nad ydych chi'n eu hadnabod (neu ond yn adnabod y brodyr, chwiorydd, neu'r 'cyswllt coll'), ewch atyn nhw i fynnu sgwrs!



A



B



C



D



E



F



G



H



I



J



K



L



M



N

YR YSGOL SUL

Diolch yw'r brif neges gan griw yr Ysgol Sul y tymor hwn – diolch i bob un wan jac sydd wedi trefnu, dysgu, arwain, cefnogi, cynllunio ac ysbrydoli. Mae hynny yn cynnwys rhieni, athrawon, plant, y bobl ifanc a chyfeillion yr ysgol Sul. Hebddoch chi fyddai'r ysgol Sul ddim yn ffynnu i'r fath raddau ag y mae'n parhau i wneud felly – DIOLCH!

O ran y gweithgareddau, wel maen nhw mor amrywiol ag ydynt niferus...

Wedi tymor prysur cyn yr haf, cafwyd Mabolgampau penigamp a dyna hyfryd oedd gweld timau cymysg o blant o bob oed yn annog eu gilydd.

Dros wyliau'r haf bu'r plant yn cymdeithasu yn enw'r clwb Hwyl. Buon nhw'n ymweld â fferm gymunedol Greenmeadow yng Nghwmbran, Fferm



Hendrewennol ym Mro Morgannwg a Fferm Wigglely's ym Mhenybont. Yna ym mis Medi aeth bws cyfan ar y trip ysgol Sul i Fferm Cantref ger Aberhonddu. Nid yn unig roedd Gwawr wedi trefnu'r cludiant a'r gweithgareddau ond fe drefnodd y tywydd hefyd – sut ddigwyddodd hynny?

Gwasanaethau

Cafwyd sawl gwasanaeth o dan ofal yr ysgol Sul gyda nifer o'r plant hefyd yn cyfrannu i'r gwasanaethau ardal. Roedd y gwasanaethau Diolchgarwch a Nadolig yn gofiadwy a braf iawn oedd gweld y plant a'r bobl ifanc yn perfformio mor broffesiynol ac yn ei morio hi yn theatr Gartholwg.

Rhieni'r Ysgol Sul

Mae criw ffyddlon a gweithgar yn gefnogol iawn i holl weithgareddau'r ysgol Sul ac mae na fwrriad i drefnu mwy o weithgareddau cymdeithasol er mwyn i bawb ddod i adnabod ei gilydd yn well. Mae'r llu o weithgareddau lleol gan bwyllgorau apel Eisteddfod yr Urdd 2017 yn rheswm teilwng dros fentro allan wrth gwrs!



Allwch chi Helpu?

Pwyllgor y Meddiannau

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur dros ben wrth i'r pwyllgor geisio cefnogi'r gwaith ar adeilad y capel. Cynhaliwyd cyfarfodydd niferus wrth i ni fireinio ac adolygu y cynlluniau a cheisio ymateb i ddigwyddiau tebyg i storio, lleoli bocys sain a chlirio'r cypyrddau o dan y grisiau!

Ein her nesaf fydd sicrhau bod yr adeilad newydd yn gweithio'n effeithiol. Bellach mae yna larwm, ond rhaid peintio lloriau'r llofft, gosod matiau ac hysbysfyrddau yn y cyntedd, gosod y fire extinguishers a pheintio'r tai bach.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at ail osod llwybrau'r fwynt a chlirio iorwg o'r wal gefn a'r firwydr flynyddol gyda llysiau'r dial wrth y rhandiroedd. Ein bwriad hefyd yw i wneud y llwybrau yn llai llithrig yn ystod cyfnodau o law neu iâ.

Diolchiadau mawr i Ann, Ken, Ioan, Huw, Roy, Colin, Geraint a Rob am eu gwaith.

Beth am ymuno â ni i wneud marc ymarferol ar waith y capel?

Bwrdd y Cyfarwyddwyr 2016

Cadeirydd: Wendy Reynolds

Ysgrifennydd: Gwilym Huws

Aelodau: Margaret Pritchard Copley, Carys Davies, Emlyn Davies, Celt Hughes, Rhiannon Humphreys, Siân Elin Jones, Gwerfyl Morse, Caroline Rees, Glenys Roberts.

Ymgynghorwyr: Allan James, Y Parchedig D. Eirian Rees, Keith Rowlands.

Os hoffech weld unrhyw bwnec yn cael sylw'r Bwrdd, mae croeso i chi gysylltu ag un o'r cyfarwyddwyr.

GWNEUD EIN RHAN

Wrth i anghenion pobl gynyddu, yn lleol ac ar draws y byd, mae'n braf nodi bod ein gweithgor ni'n tyfu hefyd. Daw aelodau newydd atom bob blwyddyn, yn ogystal â chynnig eu hunain i'r rhestrau gwirfoddoli gyda'r Te Pnawn Sul yng nghapel Tabernacl Yr Ais, casgliadau at y Banc Bwyd a chasgliadau Cymorth Cristnogol. Yn ychwanegol at hyn, bu aelodau a ffrindiau'r Tabernacl yn rhyfeddol o hael eu hymateb i'r casglu dillad i deuluoedd mewn argyfwng hefyd.

Wrth ddiolch yn ddiffuant i chi i gyd, mae arna i ofn y byddwn ni'n dal i ddod ar eich gofyn eto!

Fe gewch wybod yn fuan pryd bydd y casgliad dillad yn ail-ddechrau. Mae hyn yn dibynnu ar faint yr angen yn ôl timau'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn y cyfamser, bu Carys Davies yn trefnu a chyddlynu casglu dillad ar gyfer gwersylloedd ffoaduriaid Calais a Dunkerque.

Mae'r casgliadau at Fanc Bwyd Pontyclun yn Tesco Tonysguboriau yn mynd o nerth i nerth, a bu casgliad mis Rhagfyr yn hynod lwyddiannus, fel arfer. Casgliad Tonysguboriau ydy un o'r rhai gorau drwy holl wledydd Prydain, diolch i griw gweithgar a chyfeillgar Bethel, Pontyclun a staff ymroddgar a threfnus y siop, heb sôn am ein criw brwdfrydig ni, sy mor barod i helpu, ac yn mwynhau'r profiad. Bydd y casgliad nesaf ddechrau Gorffennaf. Diolch i chi hefyd am eich cyfraniadau bwyd drwy'r flwyddyn.

Bu ein cyfraniad i'r hamperi bwyd ar gyfer pobl ifanc sy dan nawdd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dra gwahanol eleni, oherwydd problemau ymarferol yn ystod atgyweirio'r capel. Drwy gydweithrediad Ann Dixey, cyflwynwyd gwerth £500 o dalebau Tesco i'w dosbarthu yn eu plith.

Diolch yn fawr i chi i gyd am ddiwallu'r angen hwn drwy eich cyfraniadau ariannol dros yr wythnosau diwethaf.

Bu dau gasgliad Cymorth Cristnogol eleni. Yr un arferol yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai, pan

gyfrannodd casglwyr y capel £1,410 o gyfanswm ardal Llanilltud Faerdre, oedd dros £3,000, a'r casgliad argyfwng ym mis Hydref i helpu ffoaduriaid yn Ewrop ac Asia, pan godwyd £1,000, drwy eich haelioni chi, a bydd Cymorth Rhodd yn chwyddo hyn ymhellach.

Bu'r gweithgor yn trafod gyda Mari Mc Neill o Cymorth Cristnogol, er mwyn defnyddio cyfran yr elusen honno o Gronfa Goffa Lowri Gruffydd yn effeithiol, a phenderfynwyd, gyda sêl bendith y teulu, ar waith Cymorth Cristnogol yn Haiti. Roedd hyn yn lluosu'r arian x 20 drwy gynllun chwyddo nawdd y llywodraeth ac yn creu cyfanswm o £22,308. Mae hyn yn dysteb anrhydeddus i goffadwriaeth aelod annwyl o'n plith, a gollwyd mor anhymig.

Mae Nia Williams yn dal mewn cysylltiad â gweithwyr LEC Mohale's Hoek yn Lesotho, a'r gweithgor yn falch o'i chynorthwyo gyda throsglwyddo arian ein casgliad misol arbennig iddyn nhw, yn dilyn cyfnod ansefydlog yn y wlad.

Bu'n fraint arbennig i'r gweithgor

**cymorth
cristnogol**



gael cefnogi Beti Treharne a'i chriw yn eu hymdrechion di-flino dros Gronfa Aaron.

Mae llawer ohonoch chi ar restr gwirfoddolwyr Te Pnawn Sul Tabernacl Yr Ais, a chewch wybodaeth maes o law yn y daflen am ein tro nesaf ni ym mis Mawrth.

Bydd cynnwys yr amlenni brown eleni yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng elusennau lleol, fel a nodir ar dudalen 7 a byddwn yn cynnig mwy o wybodaeth am waith yr elusennau hyn yn y daflen ar y Sul dros y misoedd nesaf.

Os hoffech ymuno â ni, dewch i'n cyfarfod nesaf, nos Fawrth, Mawrth 15fed, 7.30, yn Y Ganolfan.

Os hoffech wirfoddoli mewn grŵp, cysylltwch â:

Cymorth Cristnogol
johnllewt@hotmail.com

Te Pnawn Sul
margaretcalvert@mybtinternet.com

Casgliadau Banc Bwyd yn Tesco
ann.pentyrch@btinternet.com

Banc Bwyd wythnosol
evansrosalind@hotmail.com



Plant yr Ysgol Sul yn llwytho anrhegion 'Operation Christmas Child' ar ddechrau'r daith



Trefn y Suliau

O ran trefnu'r Suliau, daeth cyfnod arall i ben o ran bywyd y capel. Wedi degawd yn y gwaith, paswyd yr trefnu wythnosol ymlaen oddi wrth Emlyn Davies i Geraint Rees. Diolchwn i Emlyn am ei gyfraniad yn yr agwedd hon, gan ddiolch hefyd i Ros Evans sydd wedi ymddeol o baratoi taflenni achlysurol ar gyfer y boreuau Sul. Mae Rowland Wynne yn ddiwyd yn trefnu rota'r llywyddu, 6 mis ar y tro, a phan fydd yn mynd ati i drefnu Suliau chwe mis ola'r flwyddyn, mae'n siwr bydd yn falch o gael cynnwys egni newydd eto.

Mae Suliau 2016 yn dangos symudiad pellach tuag at aelodau'r capel yn cymryd gofal dros gynnwys yr oedfaon. Mae'r rhai mewn coch yn Suliau Cymun, ac mae'r arweiniad yn dod o blith grwp o aelodau'r gynulleidfa, weithiau mewn partneriaeth gyda gweinidog.

Mae'r Suliau mewn gwyrdd yn rhai teuluol pan fydd y plant yn aros gyda ni, gyda the a choffi i ddilyn.

Fe sylwch fod y criw sydd yn paratoi'r sgriniau a'r taflenni wedi tyfu unwaith eto,

ac mae'n diolch yn fawr iddyn nhw.

Edrychwn ymlaen at arlwy amrywiol eleni eto, gan obeithio pan fydd aelodau'r gynulleidfa yn cymryd eu cyfle, y byddan nhw'n teimlo'n gwbl rhydd i rannu eu profiadau mewn dulliau fydd yn ein hysbrydoli a'n diddori.

Os oes gennych syniadau am oedfaon 2017, neu yr hoffech gynnig arweiniad neu awgrymu thema neu ymwelydd a allai ychwanegu at ein profiad, plis cysylltwch gyda Geraint. 07816 341527 neu geraintrees@hotmail.com

Grwp Trafod i'r Grawys

Yn unol â'r patrwm achlysurol dros y degawdau diwethaf, cynhelir cylch trafod, am yr wythnosau yn arwain at y Pasg. Croeso i BOB oedran. Gall hyn fod yn gyfle arbennig i'r rhai sydd yn methu a dod ar fore Sul. 5 tan 6 o'r gloch, yn y Ganolfan.

Os byddwch chi byth yn colli taflen cyhoeddiadau'r sul, cofiwch bod modd cael hyd i gopi eto bellach ar wefan y capel.

www.tabernacl.org

Diolch yn fawr i'r sawl sydd wedi bod wrthi yn diweddarau'r wefan i gynnwys y newyddion diweddaraf. Os hoffech chi helpu gyda'r gwaith, byddai croeso mawr iawn i chi.

Dan dudalen 'Yr Achos' mae toreth o newyddion a lluniau gwych. Mae'n sicr yn werth ail ymweld a'r wefan os nad ydych wedi cael golwg arni'n ddiweddar.

CYFRANWYR Y CYLCHGRAWN:

Diolch yn fawr iawn i Emlyn Davies, Ros Evans, Glenys Roberts, Rowland Wynne, Nia Williams, Gwilym Huws, Helen Prosser, Mike West, Heulyn Rees, Lowri Roberts, Ann Davies, Ceri Anwen James a Geraint Rees am eu cyfraniadau i'r rhifyn yma o'r Cylchgrawn.

	Defosiwn/ Gweithgaredd	Llywydd	Taflen	Sgrin
Mawrth 6	Ann Dwyngwen a Chriw Pentyrch	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
13	Keith Rowlands	Celt Hughes	Iwan a Keith Rowlands	Iwan Rowlands
20	Oedfa i'r Teulu, Myfyrdod a chaneuon Huw a Beth a Wendy Reynolds	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
27 Pasg	Eirian Rees	Geraint Wyn	Geraint Rees	Geraint Rees
Ebrill 3	Rhiannon Humphreys a chriw Pentre'r Eglwys	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
10	Parch. Aled Edwards	Carol Williams	Nia Williams	Sylvia Davies
17	Oedfa i'r Teulu gyda Sara, Awen ac Elain a ffrindiau	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
24	Geraint, Siriol a Steve Preston – Sul Cerddorol	Wendy Reynolds	Geraint Rees	Geraint Rees
Mai 1	Helen Prosser (a Llantrisant) a'r Parch. Gethin Rhys	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
8	Cymorth Cristnogol gyda John Llew a'r Pwyllgor Dyngarol	John Llew	Gwilym ac Eleri	Huw Rees
15	Oedfa i'r teulu Heulyn, Catrin a'r Twmiaid	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
22	Emlyn Davies	Margaret Pritchard Copley	Emlyn Davies	Emlyn Davies
29 Sulgwyn	Allan James	Rhiannon Humphreys	Ceri Anwen/Allan	Mal Pate
Mehefin 5	Gwenfil a chriw Creigiau	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
12	Parch. Aled Edwards	Helen Prosser	Nia Williams	Sylvia Davies
19	Oedfa i'r teulu Lyn West a ffrindiau Parc Nant Celyn ac eraill	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
26	Geraint Rees	Ann Griffiths	Geraint Rees	Geraint Rees
Gorff 3	Gwerfyl Morse a'r Parch. Gethin Rhys	Gwerfyl Morse	Gwerfyl Morse	Huw Rees
10	Sul y Cyfundeb			
17	Oedfa i'r Teulu a Picnic/Gemau Yng ngofal yr Ysgol Sul	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
24	Y Parch. Dyfrig Rees		Rowland Wynne	Huw Herbert
31	Gwaelod y Garth			
Awst 7	Eirian Rees			
14	Gwaelod y Garth			
21	Allan James			
28	Gwaelod y Garth			
Medi 4	Criw Pentre'r Eglwys/Tonteg gyda Keith Rowlands	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
11	Parch. Aled Edwards		Dafydd Roberts	Dafydd Roberts
18	Oedfa i'r Teulu yng ngofal Gwerfyl Morse, Ceri Anwen a ffrindiau	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
25	Emlyn Davies		Emlyn Davies	Emlyn Davies
Hydref 2	Gwilym ac Eleri Huws a Chriw Meisgyn	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu
9	Geraint a Siriol a Steve Preston – Sul o Gerddoriaeth y Blues		Geraint Rees	Geraint Rees
16	Cwrdd Diolchgarwch yng ngofal yr Ysgol Sul a'r Twmiaid	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu	Criw sy'n trefnu

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Dros y chwe mis diwethaf, cynhaliwyd pum cyfarfod o'r Bwrdd a threfnwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr eglwys ar 22 Tachwedd. Fel yr adroddwyd am waith y Bwrdd dros hanner cyntaf 2015 yn rhifyn Gorffennaf o *Tafod y Tab*, prif fusnes y Bwrdd unwaith yn rhagor oedd derbyn adroddiadau gan swyddogion diwyd Gweithgor y Prosiect Adeiladu. Rhaid eu llongyfarch yn wresog – nid yn unig am gydweithio mor effeithiol gyda'r cwmni adeiladu, ond hefyd am sicrhau bod y Bwrdd yn ymwybodol o bob cam o'r gwaith. Wrth i rai problemau godi'n ddirybudd, roedd y Bwrdd yn gefn i'r Gweithgor wrth iddyn nhw wneud rhai dewisiadau – gan gynnwys y penderfyniad anodd, ond doeth, i ohirio'r dychwelyd i'r Capel hyd ganol Ionawr.

Ar yr un pryd roedd y Bwrdd yn cydweithio'n agos gyda PAPAT (Pwyllgor Ariannu'r Prosiect Adeiladu) a'n Trysorydd cydwybodol, Keith Rowlands, i sicrhau bod gan yr eglwys fodd i dalu am yr holl waith atgyweirio. Hyderwn y bydd y gynulleidfa gyfan yn cytuno bod golwg gorffenedig y capel wedi bod yn werth yr holl ymdrech. Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi cefnogaeth ac amynedd yr aelodau dros y misoedd diwethaf, ynghyd â'u cyfraniadau hael tuag at y costau atgyweirio.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i dderbyn adroddiadau cyson gan bwyllgorau a gweithgorau eraill yr eglwys – megis y

Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol, Pwyllgor yr Ysgol Sul, Pwyllgor y Meddiannau a Phwyllgor y Ganolfan. Mae'n galonogol na fu laesu dwylo yng ngweithgareddau amrywiol yr eglwys dros gyfnod yr atgyweirio. Yn wir, mae lle i gredu bod y gweithgareddau hyn wedi cynyddu rhywfaint yn ystod y cyfnod dan sylw.

Serch hynny, nawr mae'r gwaith 'brics a mortar' yn dirwyn i ben, gallwn droi ein golygon – dan arweiniad y Gweithgor Gweinidogaethu – at yr ymgyrch i ddenu rhagor o aelodau i'n plith. Eisoes mae gwaith ar droed i ddsobarthu taflen liwgar ymhlith rhieni plant yr Ysgol Sul nad ydynt yn aelodau. Ar sail y profiad hwnnw, gobeithir ymestyn yr ymgyrch i ddenu aelodau newydd i gynnwys y gymuned ehangach. Eleni hefyd byddwn yn bwrw ymlaen i drefnu ein bod yn cofrestru priodasau a gynhelir yn y Tabernacl yn fewnol ac felly cyn hir byddwn yn apelio am rai i wirfoddoli fel cofrestrwyr.

Ymhlith y materion eraill gafodd sylw'r Bwrdd dros y misoedd diwethaf roedd sicrhau olyniaeth i Carey Williams wedi iddo hysbysu'r Bwrdd ei fod am roi gorau i'w swydd fel Prif Organydd y Capel ar ddiwedd 2015. Fel un a wasanaethodd yr eglwys mor ddisglair ac mor ffyddlon am dros 40 mlynedd, nid mater hawdd oedd llenwi'r bwlch. Ond diolch i'r cnewyllyn bach o gyfeilyddion sydd wedi cytuno i ganu offeren yn eu tro – ac yn arbennig i Siân

Elin, a gytunodd i gydlynu'r Pwyllgor Cerdd – teimlwn yn hyderus y bydd yr agwedd hon o'n haddoliad o Sul i Sul mewn dwylo da dros y blynyddoedd nesaf. Yn yr un modd derbyniwyd llythyr gan Loreen Williams, a oedd am drosglwyddo'r awenau o ofalu bod cardiau'n cael eu cyflwyno i blant yr Ysgol Sul ar adeg eu pen blwydd. Diolch i Loreen am wneud y gwaith hwn mor effeithiol a diffwdan am dros 12 mlynedd, a hefyd i Diana Dethridge a gytunodd i ymgymryd â'r gwaith o ddechrau 2016 ymlaen.

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol, bu'n rhaid ffarwelio â phedwar aelod gweithgar o'r Bwrdd, sef Wyn Jones, Jane Eryl Jones, Heulyn Rees a Mike West. Diolch i bob un ohonyn nhw am eu cyfraniad gwerthfawr a'u ffyddlondeb am dymor o dair blynedd – ac yn arbennig i Wyn am ei gadeirio hynaws a synhwyrol dros ddwy flynedd. Yn affodus, ni chafwyd unrhyw enwebiadau am gyfarwyddwyr newydd mewn da bryd i'w cyflwyno i'r Cyfarfod Blynyddol: serch hynny, mae'n hyfryd medru adrodd bod pedair aelod newydd wedi cytuno i gael eu cyfethol i lenwi'r bylchau a adawyd, sef Margaret Pritchard Copley, Rhiannon Humphreys, Siân Elin Jones a Gwerfyl Morse. Dymunwn yn dda i'r pedair, ac edrychwn ymlaen yn fawr at eu cyfraniad hwythau i waith y Bwrdd. Yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol, cytunodd Wendy Reynolds i dderbyn swydd y Cadeirydd ac eisoes rydym wedi elwa o'i harweiniad doeth a brwdfrydig.

Y Capel ar ei Newydd Wedd

O'r diwedd mae'r gwaith ar adeilad y Capel bron wedi ei orffen. Mae'r tywydd dros y misoedd diwethaf wedi amharu llawer ar y gwaith, a'r gweithwyr wedi gwneud gwaith canmoladwy iawn dan amgylchiadau anodd. Bydd rhywfaint o waith ar ol i'w wneud wedi iddi sychu, sef plastro'r got uchaf a pheintio o gwmpas pedair ffenest. Hefyd mae angen rhoi dwy haen o gemegyn arbennig ar dalcen ffrynt y capel i geisio atal y cerrig rhag amsugno a dal gwlybanaeth. Wedi gwneud hyn bydd y sgaffaldau olaf yn cael eu tynnu i lawr oddi ar ffrynt y Capel.

Mae'r Capel wedi ei weddnewid yn gyfangwbl ers i'r adeiladwyr ddechrau'r gwaith ar ddiwedd mis Medi y llynedd.

Ers hynny ar y tu allan tynnwyd yr hen blastr i ffwrdd a'i ail blastro i gyd a'i beintio. Archwilwyd y to ac adnewyddwyd nifer o'r gwysau yn y ffenestri. Cafodd y wal allanol ei thrwsio ynghyd â'r llwybr ochr ac fe beintwyd y drws ffrynt.

Y tu fewn, cliriwyd y seddi i gyd lawr llawr, gyda rhai o'r rhain yn mynd i'r aelodau a'r gweddill i Ysgol Gyfun Gartholwg. Peintiwyd y Capel yn gyfangwbl, gan ail blastro lle'r oedd angen, a pheintiwyd seddi'r llofft. Adnewyddwyd rhai o'r paneli coed ar yr ochr a'r pulpud ac ychwanegwyd canllawiau wrth ochrau y ddau ddrws mewnol. Lefelwyd y llawr, ac fe gafodd

teils y cyntedd eu trwsio. Fe dynnwyd yr hen offer gwresogi, yr hen beipiau a'r beipen diogelwch o gwmpas y llofft. Gosodwyd carped lawr llawr a nifer digonol o seddi cyfforddus. Mae gwresogwyr trydan newydd yma bellach a fydd yn fwy effeithiol o ran cynhesu a chost, ac fe foderneiddwyd y system oleuo a'r system sain yn gyfangwbl.

Bellach mae yma adeilad gwerth chweil ar gyfer gofynion yr oes fodern, a hyderwn y bydd defnydd amrywiol a phwrpasol yn cael ei wneud o'r Capel ar ei newydd wedd. Diolch i bawb a fu'n helpu yn ystod y cyfnod gweithgar a chyffrous yma.

Ewch i'r dudalen gefn i weld lluniau

ANTUR YN Y GWAED

Portread o Gadeirydd y Bwrdd Mae Cadeirydd Cyfarwyddwyr y Tabernacl yr un mor gartrefol yn paragleidio yn yr Alpau ag y bydd hi'n galw pawb i drefn mewn cyfarfod o'r Bwrdd. Er hynny, mae'n gwadu ei bod yn "adrenalin junkie" o unrhyw fath, ond efallai ei fod yn gymhwyster ardderchog ar gyfer ei "pharchus, arswydus swydd" ar adegau!



Wendy yn diolch i Helen a Pens

Dros y blynyddoedd diweddar, mae arweinwyr byd masnach a diwydiant yng ngwledydd Prydain wedi bod yn galw am weld rhagor o ferched yn gyfarwyddwyr ar gwmnïau, ac mae'r llywodraeth wedi addo ceisio hyrwyddo hynny ym mhob ffordd bosib. Efallai bod ganddyn nhw rywbeth i'w ddysgu oddi wrthym ni yn y Tabernacl, gan bod wyth allan o un ar ddeg o aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ein capel ni yn ferched. Mae'n addas iawn bod hynny'n cael ei adlewyrchu ymhellach yn y ffaith mai merch, am yr eildro erbyn hyn, yw Cadeirydd y Bwrdd hefyd, sef Wendy Reynolds.

Gyda phrofiad helaeth Wendy o gadeirio pwyllgorau ac arwain cyfarfoddydd dros y blynyddoedd, mae'n anodd meddwl am neb gwell i ymgymryd â'r gwaith, a gwyddom i gyd am ei harddull gynnes ac effeithiol wrth arwain mewn oedfaon yn y capel.

Does ryfedd am hynny ar un wedd, gan mai bywyd y capel oedd canolbwynt ei byd pan oedd hi'n fach ym mhentref Pontiets, yng Nghwm Gwendraeth. Mewn oes pan nad oedd setiau teledu'n gyffredin ar aelwydydd, troi at y capel y byddai'r gymuned leol i chwilio am ddiidnawch, i gymdeithasu a chynyddu gwybodaeth. Roedd yr eglwys yn golygu llawer mwy nag addoli'n unig, a thrwy'r gymdeithas honno y dysgodd Wendy rannu pryderon a derbyn cynghorion, gyda'i thad yn ddylanwad mawr arni drwy bwysleisio'r angen i weithio'n ddiwyd y pharchu'r gwerthoedd gorau.

Derbyniodd ei haddysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg y Gwendraeth cyn symud ymlaen i Goleg y Drindod, a doedd dim amheuaeth o'r dechrau mai athrawes oedd hi am fod. Cafodd ei swydd gyntaf yn Ysgol Gyfun y Ddraenen Wen, cyn troi at y sector gynradd yn Ysgol Gynradd Llwynypia. Ond yna, daeth tro ar fydd pan wahodwyd hi i fod yn rhan o'r tîm

athrawon ymgynghorol Cymraeg yn gweithio yn y Rhondda dan arweiniad y diweddar John Albert Evans. Y syniad oedd helpu athrawon i ddefnyddio methodoleg effeithiol i ddysgu Cymraeg fel ail iaith, a datblygu adnoddau newydd a ffres megis fideos a llyfrau themâu a oedd yn berthnasol a diddorol i blant. Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod hwnnw, mae Wendy'n llawn gwerthfawrogiad o'r holl athrawon brwdfrydig na fedrai siarad Cymraeg eu hunain, ond oedd yn fodlon mynychu dosbarthiadau nos er mwyn medru cadw un cam ar y blaen i'r disgyblion. At ei gilydd, roedd y penaethiaid hefyd yn gefnogol, er bod ambell i dalcen caled yn bodoli wrth geisio perswadio ambell i bennaeth fod y Gymraeg yr un mor bwysig ag unrhyw bwnc arall ar y cwricwlwm.

Y cam nesaf yn ei gyrfa oedd dod yn ddirprwy bennaeth Ysgol Iau Ynyshir, a dilynwyd hynny gan ddyrchafiad i fod yn bennaeth Ysgol Gynradd Ffynnon Taf. Mae'n nodweddiadol o bersonoliaeth ddiymhongar Wendy ei bod yn wylaidd iawn wrth sôn am hynny: "Ar y pryd roedd yna deimlad na ddylai dirprwyon aros yn yr un ysgol am fwy na ryw bum mlynedd er mwyn eu datblygiad profesiynol eu hunain a datblygiad yr ysgol. Y gwir oedd fod na anhawster recriwtio pobl i fod yn bennaethiaid felly ges i fy mherswadio i gynnig am y swydd!". Go brin bod hynny'n wir, ond roedd derbyn y cyfrifoldeb newydd yn her fawr, wrth geisio creu a datblygu cwricwlwm newydd, blaengar, mewn adeilad Fictoriaidd gyda phroblemau cynnal a chadw difrifol.

Yn ystod ei chyfnod yn Ffynnon Taf, cafodd gyfle i dderbyn secondiad fel Ymgynghorydd Cynradd am ddwy flynedd, a chafodd flas mawr ar hynny, ond wedi dychwelyd i fod yn bennaeth fe ddechreuodd ymddiddori'n fawr yn y cwricwlwm Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang. Roedd yn awyddus i'w ehangu, a chyflwyno enghreifftiau real o fywyd ac addysg plant mewn gwlad yn y Trydydd Byd. Gyda chydweithrediad a chefnogaeth y mudiad PONT, aeth ati i sefydlu perthynas gydag Ysgol Gynradd Buchunya ym Mbale, Uganda, a derbyniodd ysgoloriaeth gan y Cyngor Prydeinig i ymweld â'r ysgol honno.

Diben pennaf yr ymweliad â Buchunya oedd i geisio datblygu cysylltiadau ieithyddol, diwylliannol a thechnolegol rhwng y ddwy ysgol, ond ar ôl adrodd yn ôl i blant a staff Ffynnon Taf am yr hyn a welodd, penderfynwyd codi arian yn rheolaidd i gefnogi'r ysgol a'r gymuned drwy ddarparu llyfrau a phensiliau, llyfrau darllen, netiau mosquito, geifr a choed

ffrwythau i'w plannu ar dir yr ysgol, lle nad oedd unrhyw ddarpariaeth am bryd o fwyd i'r disgyblion amser cinio. Dywed Wendy, "Roedd ymweld â'r ysgol yn brofiad bythgofiadwy. Fe dreuliais amser yno yn dysgu dosbarthiadau oedd yn amrywio o 70 i 100 o blant, a chefais rywfaint o gyfle i weld tipyn bach o'r wlad, lle mae'r dirwedd yn eitha'tebyg i'r ardal hon o Gymru. Bûm hefyd mewn ffatri goffi Masnach Deg, a gwnaeth hynny gryn argraff arnaf."

Ar ôl 13 mlynedd fel pennaeth yn Ffynnon Taf, cyhoeddodd Wendy ei bod yn ymdeol yn 2010, a symudodd hi a Greg i fyw i Efail Isaf o Bontypridd er mwyn bod yn nes at Beth a Huw, i helpu i warchod Mari ar y pryd, cyn dyfodiad Elis.

Erbyn hyn, mae capel y Tabernacl yn rhan bwysig o'i bywyd hi. "Dw i'n hoff iawn o'r ffaith fod yna naws groesawgar, gyfeillgar a chynnes yn treiddio drwy'r eglwys, a bod yr addoli'n amrywiol, yn berthnasol ac yn ysgogi'r meddwl. Dw i wedi dod i adnabod mwy a mwy o'r gynulleidfa erbyn hyn ac yn rhyfeddu at y gwaith mae'r pwyllgorau, y grwpiau ac unigolion yn ei gyflawni, a hynny'n cael effaith ar les pobl yn y gymuned leol ac yn fynd-eang."

Yn ei hamser hamdden mae hi'n aelod o Gôr Merched Ynysybwl, ac yn hoff iawn o deithio. Fe'i gwelwch hi hefyd yn aml yng Nghanolfan Gartholwg ar rhyw gwrs neu'i gilydd.

Ond rhag ofn i chi feddwl am eiliad bod hon yn wraig sidet, ddigynnwrf, efallai y dylem ni orffen drwy sôn am rai o'i hanturiaethau diweddar. Bu'n paragleidio yn yr Alpau, yn rafftio dŵr gwyn yn Seland Newydd ac yn ymweld â pherfedd y pyramid mawr yn yr Aiffit. A'r uchelgais nesaf? Gwifren Zip Bethesda! Ac mae ganddi un cwestiwn i'w ofyn: "Oes rhywun am ymuno 'da fi?'"

Gwefan y Capel

Mae angen gwirfoddolwyr sy'n barod i helpu gyda'r gwaith o gynnal gwefan y capel. Does dim angen bod yn athrylith cyfrifiadurol, ac mae hyfforddiant ar gael.

Holwch Emlyn ar
emlyn.davies@which.net

Helpu Ffoaduriaid

Mae Carys Davies mewn cysylltiad a gwraig sy'n helpu i ddiwallu anghenion ffoaduriaid yng ngwersylloedd Calais a Dunkerque. Os gallwch chi gyfrannu dillad tywydd garw, dillad cynnes, cyfforddus, dillad isaf, blancedi neu sachau cysgu, cysylltwch a carys: carys.davies75@btinternet.com

Y GANOLFAN

Prif weithgaredd y pwyllgor eleni fu ceisio cynyddu'r defnydd o'r Ganolfan, a chael y cyhoedd i sylweddoli bod yna adnawdd ardderchog y gallant fanteisio arno. Aeth un o'r aelodau, Amanda Evans, ati i ddsbarthu taflenni yn hysbysebu'r Ganolfan o dŷ i dŷ o amgylch y pentref, a chafwyd nifer o ymholiadau o ganlyniad i hynny, a bellach mae dosbarthiadau tiwtora ymhlith y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yma.

Gwahoddwyd Einir Siôn, Prif Weithredwr Menter Taf Elai, i ystyried a hoffai'r Fenter gynnal gweithgareddau yn y Ganolfan, ac roedd Einir yn awyddus i'r gymuned gynnig syniadau ynghylch y gweithgareddau yr hoffent eu cael. Cynhaliwyd Noson Cacen, Clonc a Chân ym mis Medi er mwyn gwyntyllu syniadau, gyda Colin Williams yn croesawu a llywio a chyfraniadau gan Barti'r Efail a Chôr yr Einion. Dosbarthodd Einir holiaduron, ac ymhlith y syniadau a gafwyd yr oedd Noson Gemau, Clwb Darllen, Tai Chi, Jamio i bobl ifanc, clwb/cyfarfodydd gwyddonol, clwb cynganeddu. Gobeithio y bydd rhai o'r rhain yn dwyn ffrwyth cyn hir.

Yn y cyfamser, dyma rai o'r gweithgareddau sy'n digwydd yn y Ganolfan ar hyn o bryd: ymarferion Côr yr Einion a Pharti'r Efail, dosbarthiadau Archaeoleg yr U3A, dosbarth Cymraeg i Oedolion y Brifysgol, dosbarth Ioga, dosbarth tiwtora, clwb dawnsio i ferched, Teulu Twm. Yn achlysurol hefyd, cynhelir cyfarfodydd yma gan Ferched y Tabernacl, Merched y Wawr a Chylch Cadwgan, ac ym mis Medi cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Cerdd Dant Cymru yma, gan mai Menna Thomas, arweinydd Parti'r Efail oedd y llywydd. Hyn yn ogystal â chyfarfodydd arferol a capel a'r Ysgol Sul a Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'i bwyllgorau.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Ann Dixey am ei gwaith difflino yn rheoli'r Ganolfan a'i hadnoddau, ac yn hwyluso'r defnydd ohoni.

ATEBION Y CWIS

A yw mamgu L
B yw mamgu J
C yw mamgu H
D yw mamgu N
E yw mamgu I
F yw mamgu K
G yw mamgu M

Helen Prosser yn cofio Lowri Gruffydd

"Y wên na phyla amser", medd Dafydd Iwan am DJ Williams, ond i fi dyma hefyd ddisgrifiad perffaith o Lowri Gruffydd. Bu colli Lowri mor ddisywnyht yn ôl ym mis Gorffennaf yn sioc ac yn ergyd ofnadwy. Lowri annwyl, Lowri dyner. Yn yr holl deyrngedau sy wedi bod, pwysleisia pawb yr un peth – roedd Lowri bob amser yn gweld y gorau mewn



pobl, bob amser yn gadarnhaol. Dyma rai o'r geiriau a ddefnyddiodd Alun Davies, Pennaeth Ysgol Glantaf lle bu Lowri'n Bennaeth ar yr Adran Ffrangeg, i'w disgrifio: "ymroddiad, cysondeb, balchder yn ein hiaith a'n diwylliant a pharodrwydd i fynd y filltir ychwanegol". Fel ffrind, gallaf uniaethu'n llwyr â'r geiriau hyn. O ran y Tabernacl, bu'n aelod brwd a ffyddlon, yn y gwasanaethau ac yn y gweithgareddau. Ac wrth gwrs, gwelon ni enghraifft o'r "ail filltir" yn ei gwaith yn helpu troi'r Tabernacl yn warws i dderbyn rhoddion i Apêl y Tsunami pan ddigwyddodd y drychineb yna yn Asia ar ddiwedd 2005.

Roedd Lowri bob amser mor dyner ac addfwyn, ac eto roedd gwynmoch yn perthyn iddi. Cyrhaeddodd Ysgol Llanhari i wneud lefel A trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny ar ôl derbyn ei haddysg i gyd tan hynny yn Saesneg. Tipyn o gamp ac yn

dystiolaeth i'w dawn fel ieithydd. Ac roedd gwleidyddiaeth a diwylliant Cymru yn bwysig iawn iddi a hithau mor falch o weld y ddau beth yn dod ynghyd yn y bechgyn – 'Tryst' yn ennill cadair Ysgol Gartholwg ac yn aelod o Gymdeithas yr Iaith, ac 'Osi' mor awyddus i hyrwyddo cerddoriaeth werin draddodiadol. Does

dim angen sôn am y cloccio! A gwyh gweld bod Adran Bro Taf wedi cyflwyno tlws ar gyfer un o'r cystadlaethau cloccio yn yr Eisteddfod Genedlaethol er cof am Lowri. Tlws sydd bellach yng Nghae Clyd yn Efail Isaf ar ôl i Osian ei gipio ym Meifod.

Ac er ei phrysurdeb fel pennaeth adran, roedd ganddi amser i'w roi i bobl yn ei bywyd. Roedd wedi torri ar ei horiau yn yr ysgol er mwyn gallu gweld mwy o'i mam, sydd erbyn hyn wedi colli ei brwydr hithau yn dilyn strôc rai blynyddoedd yn ôl.

Rhoddodd Hefin job o waith i fi yn yr angladd, sef sylwi pwy oedd yna er mwyn gallu adrodd yn ôl iddo. Hefin bach, methais yn rhacs. Daeth pobl o bell ac agos i ffarwelio ag un a gyffyrddodd â bywydau cymaint mewn ffordd gwbl gadarnhaol.

Arian Elusen 2015

Casglwyd dros £3000 drwy'r amlenni brown llynedd, a chael ad-daliad treth o fwy na £588 ar ben hynny. Rhannwyd y mwyafrif o'r swm hwn rhwng y pedair elusen a glustnodwyd ar gyfer llynedd, sef Ymchwil Ganser Cymru, Childline, Gofalwyr Ifanc a Chymdeithas Alzheimer. Bydd y gweddill yn mynd at achosion brys lleol fel bo'r angen yn codi. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu haelioni. Dyma'r casgliad elusen mwyaf hyd yn hyn.

Elusennau 2016

Bydd Cynnwys yr amlenni brown eleni yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng pump o elusennau lleol:

- Gofalwyr Ifanc,
- Gorwelion Newydd Iechyd Meddwl, Aberdar,
- Ysgol Ty Coch,
- Prosiect Peilot Cymoedd De Cymru Y Samariaid,
- Gwasanaeth cwnsela Eye to Eye, Rhondda Cynon Taf.

Mae'n werth cadw golwg ar gefn y daflen ar y sul i gael rhagor o wybodaeth am yr elusennau hyn.

Y Capel ar ei Newydd Wedd

- stori ar dudalen 5



Fel yr oedd pethau



Dechrau gyda'r sgaffaldiau



Ail rendro'r waliau



Dechrau arni y tu mewn



Diogelu cofeb Taihirion



Rhy hwyr i ail-feddwl nawr!



Unioni'r llawr



Llenwi bylchau



Dechrau bod yn greadigol



Mae pethau'n gwella!



Dyma liw hyfryd



Gweld y diwedd



Cadeiriau chwaethus



Popeth yn ei le